- () Yn is-adran [(*yr is-adran gyntaf sy’n cael ei mewnosod gan y gwelliant hwn*)] ystyr “grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol” yw grwpiau a bennir yn y telerau a’r amodau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol berthnasol yng Nghymru o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.’.

Laura Anne Jones

120

Section 103, page 56, line 9, leave out subsection (4).

Adran 103, tudalen 56, llinell 9, hepgorer is-adran (4).

Laura Anne Jones

121

Page 56, line 34, leave out section 105.

Tudalen 56, llinell 36, hepgorer adran 105.

Laura Anne Jones

122

Page 57, line 23, leave out section 106.

Tudalen 57, llinell 23, hepgorer adran 106.

Laura Anne Jones

123

Page 58, after line 7, insert a new section –

‘Publication of financial information and transparency

[] Publication of financial information

- (1) As soon as reasonably practicable after the end of each financial year the Commission must publish details of –
 - (a) the funding that it has allocated during the financial year,
 - (b) its funding methodologies,
 - (c) its funding formulae, and
 - (d) its financial outturns.
- (2) The Welsh Ministers must set out in regulations the requirements that the Commission must meet in order to discharge its duty under subsection (1).
- (3) In this section “financial year” means –
 - (i) the period beginning on the day on which section 1 comes into force and ending on the following 31 March;
 - (ii) subsequently, each successive period of 12 months.’.

Tudalen 58, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

‘Cyhoeddi gwybodaeth ariannol a thryloywder

[] Cyhoeddi gwybodaeth ariannol

- (1) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i’r Comisiwn gyhoeddi manylion –
 - (a) y cyllid y mae wedi’i ddyrannu yn ystod y flwyddyn ariannol,
 - (b) ei fethodolegau cyllido,
 - (c) ei fformiwlâu cyllido, a
 - (d) ei alldroeon ariannol.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau y gofynion y mae’n rhaid i’r Comisiwn eu bodloni er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan is-adran (1).
- (3) Yn yr adran hon, ystyr “blwyddyn ariannol” yw –
 - (i) y cyfnod sy’n dechrau ar y diwrnod y daw adran 1 i rym ac sy’n gorffen ar y 31 Mawrth dilynol;
 - (ii) wedi hynny, pob cyfnod dilynol o 12 mis.’.

Laura Anne Jones

124

Page 58, after line 7, insert a new section –

[] Transparency of funding

The Commission must ensure that all decisions that that it makes in relation to funding are made in a transparent manner within the law.’.

Tudalen 58, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

[] Tryloywder cyllid

Rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod yr holl benderfyniadau y mae'n eu gwneud mewn perthynas â chyllido yn cael eu gwneud mewn modd tryloyw o fewn y gyfraith.’.

Laura Anne Jones

125

Section 107, page 58, after line 19, insert –

- ‘() No regulations may be made under subsection (4) unless the Welsh Ministers have first –
- (a) published a draft of the regulations at least four weeks before the regulations are laid before the Senedd,
 - (b) consulted with such persons as they consider appropriate, and
 - (c) published a report setting out the details of the consultation exercise and responses to it.’.

Adran 107, tudalen 58, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- ‘() Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (4) oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y canlynol yn gyntaf:
- (a) cyhoeddi drafft o'r rheoliadau o leiaf bedair wythnos cyn i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd,
 - (b) ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, ac
 - (c) cyhoeddi adroddiad yn nodi manylion yr ymgynghoriad a'r ymatebion iddo.’.

Laura Anne Jones

126

Page 59, line 16, leave out section 111.

Tudalen 59, llinell 16, hepgorer adran 111.

Laura Anne Jones

127

Page 60, line 7, leave out section 112.

Tudalen 60, llinell 7, hepgorer adran 112.

Laura Anne Jones **128**

Page 61, after line 25, insert a new section –

[] The Commission’s annual report

The Commission must include in its annual report (prepared under paragraph 16 of Schedule 1) a summary of all activities it has undertaken relating to approved Welsh apprenticeships and vocational qualifications in Wales during the financial year to which the report relates.’.

Tudalen 61, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd –

[] Adroddiad blynyddol y Comisiwn

Rhaid i’r Comisiwn gynnwys yn ei adroddiad blynyddol (a lunnir o dan baragraff 16 o Atodlen 1) grynodedb o’r holl weithgareddau yr ymgymrodd â hwy sy’n ymwneud â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy a chymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.’.

Laura Anne Jones **129**

Section 122, page 64, after line 7, insert –

- ‘() taking into account the welfare of a person who falls within subsection (1) or (2), and
- () where appropriate, ensuring that a person who falls within subsections (1) or (2) is able to continue a relevant course through the medium of Welsh.’.

Adran 122, tudalen 64, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- ‘() ystyried lles person sy’n dod o fewn is-adran (1) neu (2), a
- () pan fo’n briodol, sicrhau bod person sy’n dod o fewn is-adran (1) neu (2) yn gallu parhau â chwrs perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.’.

Laura Anne Jones **130**

Section 122, page 64, line 8, leave out ‘with or without modifications’ and insert ‘ –

- (a) in the form submitted to it by the relevant tertiary education provider, or
- (b) in an amended form as agreed by the relevant tertiary education provider’.

Adran 122, tudalen 64, llinell 8, hepgorer ‘gydag addasiadau neu hebddynt’ a mewnosoder ‘ –

- (a) ar y ffurf y’i cyflwynwyd iddo gan y darparwr addysg drydyddol perthnasol, neu
- (b) ar ffurf ddiwygiedig y mae’r darparwr addysg drydyddol perthnasol yn cytuno arni’.

Laura Anne Jones **131**

Section 122, page 64, line 9, after ‘If’, insert ‘, following approval of a revised learner protection in accordance with subsection (3),’.

Adran 122, tudalen 64, llinell 10, ar ôl ‘Os’, mewnosoder ‘, yn dilyn cymeradwyo cynllun diogelu dysgwyr diwygiedig yn unol ag is-adran (3),’.

Laura Anne Jones 132

Section 122, page 64, line 11, leave out ‘with or without modifications.’ and insert ‘ –

- (a) in the form submitted to it by the relevant tertiary education provider, or
- (b) in an amended form as agreed by the relevant tertiary education provider.’.

Adran 122, tudalen 64, llinell 12, hepgorer ‘gydag addasiadau neu hebddynt’ a mewnosoder ‘ –

- (a) ar y ffurf y’i cyflwynwyd iddo gan y darparwr addysg drydyddol perthnasol, neu
- (b) ar ffurf ddiwygiedig y mae’r darparwr addysg drydyddol perthnasol yn cytuno arni’.

Laura Anne Jones 133

Section 126, page 67, line 30, leave out subsections (1) to (2).

Adran 126, tudalen 67, llinell 32, hepgorer is-adrannau (1) hyd at (2).

Laura Anne Jones 134

Section 128, page 69, leave out lines 23 to 24.

Adran 128, tudalen 69, hepgorer llinellau 22 hyd at 23.

Laura Anne Jones 135

Section 128, page 69, after line 39, insert –

- ‘() any other person the Commission considers appropriate or that may hold information about any matter in relation to which the Commission has a function.’.

Adran 128, tudalen 69, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- ‘() unrhyw berson arall y mae’r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol neu a all gadw gwybodaeth am unrhyw fater y mae gan y Comisiwn swyddogaeth mewn perthynas ag ef.’.

Laura Anne Jones 136

Page 70, line 4, leave out section 129.

Tudalen 70, llinell 5, hepgorer adran 129.

Laura Anne Jones 137

Page 70, line 35, leave out section 130.

Tudalen 70, llinell 38, hepgorer adran 130.

Laura Anne Jones 138

Section 135, page 74, line 2, leave out ‘Section 128 of’.

Adran 135, tudalen 74, llinell 2, hepgorer ‘adran 128 o Ddeddf’ a mewnosoder ‘Deddf’.

Laura Anne Jones 139

Section 135, page 74, line 3, leave out subsections (2) to (5) and insert –

‘() Section 128 (Dissolution of higher education corporations in Wales) is repealed.’.

Adran 135, tudalen 74, llinell 3, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (5) a mewnosoder –

‘() Mae Adran 128 (Diddymu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru) wedi ei diddymu.’.

Laura Anne Jones 140

Section 138, page 75, after line 17, insert –

‘() No statutory instrument may be made by the Welsh Ministers under this Act unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.’.

Adran 138, tudalen 75, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘() Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud offeryn statudol o dan y Ddeddf hon oni bai bod drafft o’r offeryn wedi’i osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.’.

Laura Anne Jones 141

Section 138, page 75, line 18, leave out subsections (3) to (5).

Adran 138, tudalen 75, llinell 20, hepgorer is-adrannau (3) hyd at (5).

Laura Anne Jones 142

Section 138, page 75, line 20, leave out ‘containing regulations’ and insert ‘made’.

Adran 138, tudalen 75, llinell 23, hepgorer ‘sy’n cynnwys rheoliadau’ a mewnosoder ‘a wneir’.

Laura Anne Jones 143

Section 138, page 75, line 22, leave out ‘section’ and insert ‘sections 8([]) and’.

Adran 138, tudalen 75, llinell 25, hepgorer ‘adran’ a mewnosoder ‘adrannau 8 ([]) ac’.

Laura Anne Jones 144

Section 138, page 75, line 22, leave out ‘section’ and insert ‘sections 19(*subsection to be inserted by amendment 61*) and’.

Adran 138, tudalen 75, llinell 25, hepgorer ‘adran’ a mewnosoder ‘adrannau 19(*yr is-adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 61*) ac’.

Laura Anne Jones **145**

Section 138, page 75, line 23, after ‘23(2)’, insert ‘and (5) and (8)’.

Adran 138, tudalen 75, llinell 26, ar ôl ‘23(2)’, mewnosoder ‘a (5) ac (8)’.

Laura Anne Jones **146**

Section 138, page 75, line 28, leave out ‘, but only where the regulations amend, repeal or otherwise modify a provision of an Act of Parliament, a Measure of the National Assembly for Wales or an Act of Senedd Cymru’.

Adran 138, tudalen 75, llinell 31, hepgorer ‘, ond dim ond pan fo’r rheoliadau yn diwygio, yn diddymu neu fel arall yn addasu darpariaeth mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddf gan Senedd Cymru’.

Laura Anne Jones **147**

Section 139, page 77, line 6, after ‘education’, insert ‘, adult community learning’.

Adran 139, tudalen 76, llinell 5, ar ôl ‘bellach’, mewnosoder ‘, dysgu oedolion yn y gymuned’.

Laura Anne Jones **148**

Section 140, page 78, line 6, leave out subsection (2).

Adran 140, tudalen 78, llinell 6, hepgorer is-adran (2).

Laura Anne Jones **149**

Section 140, page 78, after line 8, insert –

- ‘() No regulations may be made under subsection (1) unless the Welsh Ministers have first –
- (a) published a draft of the regulations at least four weeks before the regulations are laid before the Senedd,
 - (b) consulted with such persons as they consider appropriate, and
 - (c) published a report setting out the details of the consultation exercise and responses to it.’.

Adran 140, tudalen 78, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- ‘() Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y canlynol yn gyntaf:
- (a) cyhoeddi drafft o'r rheoliadau o leiaf bedair wythnos cyn i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd,
 - (b) ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, ac
 - (c) cyhoeddi adroddiad yn nodi manylion yr ymgynghoriad a'r ymatebion iddo.’.

Laura Anne Jones

150

Section 143, page 78, line 19, leave out ‘the day after the day on which this Act receives Royal Assent’ and insert ‘1 January 2024’.

Adran 143, tudalen 78, llinell 21, hepgorer ‘drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol’ a mewnosoder ‘ar 1 Ionawr 2024’.

Laura Anne Jones

151

Schedule 1, page 79, after line 6, insert –

‘Guidance

- [] As soon as reasonably practicable after section 1 comes into force, the Welsh Ministers must give guidance to the Commission with respect to the manner in which it should exercise its functions so as to give effect to its duties.
- [] Guidance issued under paragraph [*first paragraph to be inserted by this amendment*] must be reviewed by the Welsh Ministers on an annual basis and the Welsh Ministers must write to the Commission setting out the outcome of their review.
- [] Guidance issued under paragraph [*first paragraph to be inserted by this amendment*] or reviewed under paragraph [*second paragraph to be inserted by this amendment*] must be published as soon as reasonably practicable.’

Atodlen 1, tudalen 79, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

‘Canllawiau

- [] Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl i adran 1 ddod i rym, rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i’r Comisiwn mewn cysylltiad â’r modd y dylai arfer ei swyddogaethau er mwyn rhoi effaith i’w ddyletswyddau.
- [] Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan baragraff [*y paragraff cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan y gwelliant hwn*] gael eu hadolygu gan Weinidogion Cymru yn flynyddol a rhaid i Weinidogion Cymru ysgrifennu at y Comisiwn yn nodi canlyniad eu hadolygiad.
- [] Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan baragraff [*y paragraff cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan y gwelliant hwn*] neu a adolygir o dan baragraff [*yr ail baragraff sy’n cael ei fewnosod gan y gwelliant hwn*] gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo’n ymarferol rhesymol.’

Laura Anne Jones

152

Schedule 1, page 79, line 9, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.

Atodlen 1, tudalen 79, llinell 9, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.

Laura Anne Jones

153

Schedule 1, page 79, line 10, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.

Atodlen 1, tudalen 79, llinell 10, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.

- Laura Anne Jones** 154
Schedule 1, page 79, line 12, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 79, llinell 12, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 155
Schedule 1, page 79, line 16, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 79, llinell 16, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 156
Schedule 1, page 79, line 26, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 79, llinell 26, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 157
Schedule 1, page 80, line 3, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 80, llinell 4, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 158
Schedule 1, page 80, line 5, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 80, llinell 5, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 159
Schedule 1, page 80, line 8, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 80, llinell 9, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 160
Schedule 1, page 80, line 11, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 80, llinell 13, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 161
Schedule 1, page 80, line 16, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 80, llinell 19, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.

- Laura Anne Jones** 162
Schedule 1, page 80, line 24, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 80, llinell 26, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 163
Schedule 1, page 80, line 32, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 80, llinell 34, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 164
Schedule 1, page 81, line 2, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 81, llinell 2, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 165
Schedule 1, page 81, line 7, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 81, llinell 8, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 166
Schedule 1, page 81, line 13, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 81, llinell 13, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 167
Schedule 1, page 81, line 18, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 81, llinell 18, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 168
Schedule 1, page 81, line 21, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 81, llinell 21, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 169
Schedule 1, page 81, line 23, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 81, llinell 23, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.

- Laura Anne Jones** 170
Schedule 1, page 81, line 26, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 81, llinell 26, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 171
Schedule 1, page 82, line 16, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 82, llinell 15, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 172
Schedule 1, page 82, line 19, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 82, llinell 20, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 173
Schedule 1, page 82, line 24, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 82, llinell 24, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 174
Schedule 1, page 82, line 27, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 82, llinell 27, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 175
Schedule 1, page 82, line 29, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 82, llinell 29, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 176
Schedule 1, page 83, line 3, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 83, llinell 3, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 177
Schedule 1, page 83, line 14, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 83, llinell 14, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.

- Laura Anne Jones** 178
Schedule 1, page 83, line 17, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 83, llinell 17, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 179
Schedule 1, page 83, line 31, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 83, llinell 31, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 180
Schedule 1, page 84, line 2, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 84, llinell 3, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 181
Schedule 1, page 84, line 5, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 84, llinell 5, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 182
Schedule 1, page 84, line 8, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 84, llinell 8, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 183
Schedule 1, page 84, line 19, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 84, llinell 20, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 184
Schedule 1, page 85, line 13, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 85, llinell 12, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 185
Schedule 1, page 85, line 16, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 85, llinell 15, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.

- Laura Anne Jones** 186
Schedule 1, page 85, line 28, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 85, llinell 28, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 187
Schedule 1, page 85, line 30, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 85, llinell 29, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 188
Schedule 1, page 85, line 33, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 85, llinell 32, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 189
Schedule 1, page 85, line 36, leave out ‘The Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 85, llinell 35, hepgorer ‘Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 190
Schedule 1, page 86, line 2, leave out ‘the Welsh Ministers’ and insert ‘Senedd Cymru’.
Atodlen 1, tudalen 86, llinell 3, hepgorer ‘Weinidogion’ a mewnosoder ‘Senedd’.
- Laura Anne Jones** 191
Schedule 4, page 107, line 31, leave out –
 ‘(2) In section 1 (overview) –
 (a) after subsection (9) insert –
 “(9A) Chapter 3A provides for powers for the Commission for Tertiary Education
 and Research to rationalise sixth form education.”;
 (b) omit subsection (11).’
Atodlen 4, tudalen 107, llinell 31, hepgorer –
 ‘(2) Yn adran 1 (trosolwg) –
 (a) ar ôl is-adran (9) mewnosoder –
 “(9A) Mae Pennod 3A yn darparu pwerau i’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac
 Ymchwil resymoli addysg chweched dosbarth.”;
 (b) hepgorer is-adran (11).’

Laura Anne Jones **192**

Schedule 4, page 108, leave out lines 11 to 13.

Atodlen 4, tudalen 108, hepgorer llinellau 11 hyd at 13.

Laura Anne Jones **193**

Schedule 4, page 108, leave out lines 28 to 35.

Atodlen 4, tudalen 108, hepgorer llinellau 28 hyd at 35.

Laura Anne Jones **194**

Schedule 4, page 108, line 36, leave out –

‘(8) After section 63 insert –

“CHAPTER 3A

PROPOSALS FOR THE RATIONALISATION OF SIXTH FORM PROVISION

63A Directions by the Commission to make sixth form proposals

(1) The Commission may, in accordance with the Code –

(a) direct a local authority to exercise its powers to make proposals to –

(i) establish or discontinue a school providing education suitable only to the requirements of persons over compulsory school age, or

(ii) make an alteration described in Schedule 2 to a school, the effect of which would be that provision of education suitable to the requirements of persons over compulsory school age at the school increases or decreases.

(b) direct the governing body of a foundation or voluntary school to exercise its powers to make an alteration described in Schedule 2 to a school, the effect of which would be that provision of education suitable to the requirements of persons over compulsory school age at the school increases or decreases.

(2) A direction under subsection (1) must –

(a) require the proposals to be published no later than the date specified in the direction, and

(b) require the proposals, in giving effect to the direction, to apply any principles specified in it.

63B Further provision about proposals made after a direction under section 63A(1)

(1) Proposals made in accordance with a direction under section 63A(1) may not be withdrawn without the consent of the Commission.

- (2) The Commission may give consent for the purposes of subsection (1) subject to conditions.
- (3) A local authority must reimburse expenditure reasonably incurred by a governing body of a school maintained by it in making proposals in accordance with a direction under section 63A(1).
- (4) Despite anything in Part 1 of Schedule 3 (responsibility for implementation of statutory proposals), a local authority must meet the cost of implementing proposals made by a governing body of a school maintained by it in accordance with a direction under section 63A(1) which have been approved or determined to be implemented.

63C Making of proposals by the Commission

- (1) This section applies where –
 - (a) the Commission has made a direction under section 63A(1), and
 - (b) either –
 - (i) proposals have been published in accordance with the direction, or
 - (ii) the time allowed under the direction for the publication of the proposals has expired.
- (2) The Commission may make any proposals that could have been made in accordance with the direction.
- (3) But the Commission must obtain the consent of the Welsh Ministers before making a proposal to make an alteration described in paragraph 6 of Schedule 2 (opening or closing a school’s sixth form) to a voluntary or foundation school.
- (4) Where the Commission makes proposals under this section, any proposals that have been made by a local authority or governing body and published in accordance with the direction are to be treated as having been withdrawn.

63D Publication of Commission’s proposals and consultation

- (1) The Commission must publish proposals made under section 63C in accordance with the Code.
- (2) Before publishing proposals made under section 63C, the Commission must consult on its proposals in accordance with the Code.
- (3) The requirement to consult does not apply to proposals to discontinue a school which is a small school within the meaning given by section 56.
- (4) Before the end of 7 days beginning with the day on which they were published, the Commission must send copies of the published proposals to –
 - (a) the Welsh Ministers,
 - (b) the local authority that maintains, or that it is proposed will maintain, the school to which the proposals relate, and

- (c) the governing body (if any) of the school to which the proposals relate.
- (5) The Commission must publish a report on the consultation it has carried out in accordance with the Code.

63E Objections to the Commission’s proposals

- (1) Any person may object to proposals published under section 63D.
- (2) Objections must be sent in writing to the Commission before the end of 28 days beginning with the day on which the proposals were published (“the objection period”).
- (3) The Commission must publish a summary of all objections made in accordance with subsection (2) (and not withdrawn) and its response to those objections before the end of 28 days beginning with the end of the objection period.

63F Approval by Welsh Ministers

- (1) Proposals published by the Commission under section 63D require approval under this section if an objection has been made in accordance with section 63E(2) and has not been withdrawn in writing before the end of 28 days beginning with the end of the objection period.
- (2) Where proposals require approval under this section, the Commission must send a copy of the documents listed in subsection (3) to the Welsh Ministers before the end of 35 days beginning with the end of the objection period.
- (3) The documents are –
 - (a) the report published under section 63D(5),
 - (b) the published proposals,
 - (c) any objections made in accordance with section 63E(2) (and not withdrawn), and
 - (d) where objections have been so made (and not withdrawn), the response published under section 63E(3).
- (4) Where proposals require approval under this section, the Welsh Ministers may –
 - (a) reject the proposals,
 - (b) approve them without modification, or
 - (c) approve them with modifications –
 - (i) after obtaining the consent of the Commission to the modifications, and
 - (ii) after consulting the local authority that maintains, or that it is proposed will maintain, the school to which the proposals relate and the governing body (if any) of the school to which the proposals relate.
- (5) An approval may be expressed to take effect only if an event specified in the approval occurs by a date so specified.

- (6) The Welsh Ministers may, at the request of the Commission, specify a later date by which the event referred to in subsection (5) is to occur.
- (7) Subsection (1) does not prevent proposals from being withdrawn by notice in writing given by the Commission to the Welsh Ministers at any time before they are approved under this section.
- (8) No approval is required under this section for proposals to discontinue a school which is a small school within the meaning given by section 56.

63G Determination

- (1) Where proposals published under section 63D do not require approval under section 63F, the Commission must determine whether the proposals should be implemented.
- (2) If a determination under subsection (1) is not made before the end of 16 weeks beginning with the end of the objection period, the Commission is to be taken to have withdrawn the proposals.
- (3) Before the end of 7 days beginning with the day of its determination under subsection (1), the Commission must notify the following of the determination –
 - (a) the Welsh Ministers;
 - (b) the local authority that maintains, or that it is proposed will maintain, the school to which the proposals relate;
 - (c) the governing body (if any) of the school to which the proposals relate.

63H Implementation of proposals

- (1) Proposals approved by the Welsh Ministers under section 63F or determined to be implemented by the Commission under section 63G have effect as if they had been approved by the Welsh Ministers under section 50 after having been made –
 - (a) by the local authority under its powers to make proposals to establish, alter or discontinue schools, or
 - (b) in the case of proposals to alter a foundation or voluntary school, by the governing body under its powers to make proposals to alter its school.
- (2) Despite anything in Part 1 of Schedule 3 (responsibility for implementation of statutory proposals), the local authority that maintains the school in question must meet the cost of implementing proposals approved under section 63F or determined to be implemented under section 63G which have effect as mentioned in subsection (1)(b).

63I Interpretation of Chapter 3A

In this Chapter –

“the Code” (“*y Cod*”) means the code on school organisation issued under section 38(1);

“the Commission” (“y Comisiwn”) means the Commission for Tertiary Education and Research.”

Atodlen 4, tudalen 108, llinell 36 hepgorer –

(8) Ar ôl adran 63 mewnosoder –

“PENNOD 3A

CYNIGION I RESYMOLI DARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH

63A Cyfarwyddau gan y Comisiwn i wneud cynigion chweched dosbarth

(1) Caiff y Comisiwn, yn unol â’r Cod –

(a) cyfarwyddo awdurdod lleol i arfer ei bwerau i wneud cynigion i –

(i) sefydlu neu derfynu ysgol sy’n darparu addysg sy’n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn unig, neu

(ii) gwneud newid a ddisgrifir yn Atodlen 2 i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy’n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu’n lleihau.

(b) cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol i arfer ei bwerau i wneud newid a ddisgrifir yn Atodlen 2 i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy’n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu’n lleihau.

(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan is-adran (1) –

(a) ei gwneud yn ofynnol i’r cynigion gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na’r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i’r cynigion, wrth roi effaith i’r cyfarwyddyd, gymhwyso unrhyw egwyddorion a bennir ynddo.

63B Darpariaeth bellach ynghylch cynigion a wneir ar ôl cyfarwyddyd o dan adran 63A(1)

(1) Ni chaniateir i gynigion a wneir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 63A(1) gael eu tynnu’n ôl heb gydsyniad y Comisiwn.

(2) Caiff y Comisiwn roi cydsyniad at ddibenion is-adran (1) yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Rhaid i awdurdod lleol ad-dalu gwariant yr aed iddo’n rhesymol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo wrth wneud cynigion yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 63A(1).

- (4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i awdurdod lleol gwrdd â'r gost o weithredu cynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 63A(1) a'r rheini'n gynigion sydd wedi eu cymeradwyo neu y penderfynwyd eu gweithredu.

63C Gwneud cynigion gan y Comisiwn

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo –
- (a) y Comisiwn wedi gwneud cyfarwyddyd o dan adran 63A(1), a
 - (b) naill ai –
 - (i) cynigion wedi eu cyhoeddi'n unol â'r cyfarwyddyd, neu
 - (ii) yr amser a ganiatawyd o dan y cyfarwyddyd ar gyfer cyhoeddi'r cynigion wedi dirwyn i ben.
- (2) Caiff y Comisiwn wneud unrhyw gynigion y gellid bod wedi eu gwneud yn unol â'r cyfarwyddyd.
- (3) Ond rhaid i'r Comisiwn gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud cynnig i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 (agor neu gau chweched dosbarth ysgol) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig.
- (4) Pan fo'r Comisiwn yn gwneud cynigion o dan yr adran hon, mae unrhyw gynigion sydd wedi eu gwneud gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ac sydd wedi eu cyhoeddi yn unol â'r cyfarwyddyd i'w trin fel pe baent wedi eu tynnu'n ôl.

63D Cyhoeddi cynigion y Comisiwn ac ymgynghori arnynt

- (1) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 63C yn unol â'r Cod.
- (2) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 63C, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori ynglŷn â'i gynigion yn unol â'r Cod.
- (3) Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach o fewn yr ystyr a roddir gan adran 56.
- (4) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod eu cyhoeddi, rhaid i'r Comisiwn anfon copiâu o'r cynigion cyhoeddedig –
- (a) at Weinidogion Cymru,
 - (b) at yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi, ac
 - (c) at gorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.
- (5) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad y mae wedi ei gynnal yn unol â'r Cod.

63E Gwrthwynebiadau i gynigion y Comisiwn

- (1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 63D.
- (2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig i'r Comisiwn cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi (“y cyfnod gwrthwynebu”).
- (3) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi crynodeb o'r holl wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag is-adran (2) (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl) a'i ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

63F Eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru

- (1) Mae'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir gan y Comisiwn o dan adran 63D gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon os yw gwrthwynebiad wedi ei wneud yn unol ag adran 63E(2) ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
- (2) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, rhaid i'r Comisiwn anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (3) at Weinidogion Cymru cyn diwedd 35 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
- (3) Y dogfennau yw –
 - (a) yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 63D(5),
 - (b) y cynigion cyhoeddedig,
 - (c) unrhyw wrthwynebiadau a wneir yn unol ag adran 63E(2) (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl), a
 - (d) pan fo gwrthwynebiadau wedi eu gwneud felly (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl), yr ymateb a gyhoeddir o dan adran 63E(3).
- (4) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru –
 - (a) gwrthod y cynigion,
 - (b) eu cymeradwyo heb eu haddasu, neu
 - (c) eu cymeradwyo gydag addasiadau –
 - (i) ar ôl cael cydsyniad y Comisiwn i'r addasiadau, a
 - (ii) ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi, ac â chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.
- (5) Caniateir i gymeradwyaeth ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru, ar gais y Comisiwn, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y mae'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn is-adran (5) i ddigwydd.

- (7) Nid yw is-adran (1) yn atal cynigion rhag cael eu tynnu'n ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y Comisiwn i Weinidogion Cymru ar unrhyw bryd cyn iddynt gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon.
- (8) Nid yw'n ofynnol i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach o fewn yr ystyr a roddir gan adran 56 gael unrhyw gymeradwyaeth o dan yr adran hon.

63G Penderfynu

- (1) Pan na fo'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir o dan adran 63D gael eu cymeradwyo o dan adran 63F, rhaid i'r Comisiwn benderfynu a ddylid gweithredu'r cynigion.
- (2) Os na fydd penderfyniad o dan is-adran (1) wedi ei wneud cyn diwedd 16 o wythnosau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, bernir bod y Comisiwn wedi tynnu'r cynigion yn eu hôl.
- (3) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad o dan is-adran (1), rhaid i'r Comisiwn hysbysu'r canlynol am y penderfyniad –
 - (a) Gweinidogion Cymru;
 - (b) yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;
 - (c) corff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

63H Gweithredu cynigion

- (1) Mae cynigion sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 63F neu y penderfynwyd eu gweithredu gan y Comisiwn o dan adran 63G yn cael effaith fel petaent wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 ar ôl iddynt gael eu gwneud –
 - (a) gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, neu
 - (b) yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.
- (2) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol o dan sylw gwrdd â'r gost o weithredu cynigion sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 63F neu y penderfynwyd eu gweithredu o dan adran 63G ac sy'n cael effaith fel a grybwyllir yn is-adran (1)(b).

63I Dehongli Pennod 3A

Yn y Bennod hon –

ystyr "y Cod" (*"the Code"*) yw'r cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);

ystyr "y Comisiwn" (*"the Commission"*) yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil."

Laura Anne Jones

195

Schedule 4, page 113, leave out line 7 and insert –

- ‘() In section 71 (Welsh Ministers’ powers to restructure sixth form education) –
 - (a) in the heading, after “Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research’s”, and
 - (b) after “The Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”.
- () In section 72 (consultation, publication and objections) –
 - (a) in subsection (1) –
 - (i) after “the Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”,
 - (ii) omit “the proposals” and insert “their own proposals”.
 - (b) after subsection (1), insert –
 - “(1A) Consultation under subsection (1) must include consultation with –
 - (a) any local authority that may be affected by the proposals, and
 - (b) the governing body of any maintained school that may be affected by the proposals.”
 - (c) in subsection (2) –
 - (i) after “The Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”,
 - (ii) after “proposals” insert “they have”.
 - (d) in subsection (4), after “the Welsh Ministers” insert “in the case of proposals made by them or to the Commission for Tertiary Education and Research in the case of proposals made by it”
- () In section 73 (determination by the Welsh Ministers) –
 - (a) in the heading, after “the Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”,
 - (b) in subsection (1) –
 - (i) after “the Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”,
 - (ii) in paragraph (a), omit “the” and insert “their own”,
 - (iii) in paragraph (b), omit “the” and insert “their own”.
 - (c) in subsection (2), after “the Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”.
 - (d) in subsection (5), after “the Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”.
 - (e) in subsection (6) –

- (i) after “The Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”,
 - (ii) after “their” insert “own”.
- () In section 74 (form of implementation) –
- (a) in subsection (1), after “the Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”,
 - (b) in subsection (3) –
 - (i) after “the Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”,
 - (ii) in paragraph (a) after “modify” insert “their own”.
 - (c) in subsection (4), after “the Welsh Ministers” insert “or the Commission for Tertiary Education and Research”.
- () After section 76 (further provision as to implementation) insert –

“76A Conflict of proposals

In the event that proposals are made under section 71 by both the Welsh Ministers and the Commission for Tertiary Education and Research which, wholly or in part, contain conflicting provisions, the proposals made by the Welsh Ministers will prevail and the proposal by the Commission for Tertiary Education and Research will be deemed withdrawn under section 73(6)”.’.

Atodlen 4, tudalen 113, hepgorer llinell 7 a mewnosoder –

- () Yn adran 71 (pwerau Gweinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth) –
- (a) yn y pennawd, ar ôl “Gweinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”, a
 - (b) ar ôl “Weinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”.
- () Yn adran 72 (ymgyngori, cyhoeddi a gwrthwynebiadau) –
- (a) yn is-adran (1) –
 - (i) ar ôl “Gweinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”,
 - (ii) hepgorer “y cynigion” a mewnosoder “eu cynigion eu hunain”.
 - (b) ar ôl is-adran (1), mewnosoder –
 - (1A) Rhaid i ymgynghoriad o dan is-adran (1) gynnwys ymgynghori –
 - (a) ag unrhyw awdurdod lleol y gall y cynigion effeithio arno, a
 - (b) â chorff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir y gall y cynigion effeithio arni.
 - (c) yn is-adran (2) –
 - (i) ar ôl “Weinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”,

- (ii) ar ôl “cynigion” hepgorer “a wneir” a mewnosoder “y maent wedi eu gwneud”.
- (d) yn is-adran (4), ar ôl “Weinidogion Cymru” mewnosoder “yn achos cynigion a wneir ganddynt neu i’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn achos cynigion a wneir ganddo”
- (j) Yn adran 73 (penderfyniad gan Weinidogion Cymru) –
 - (a) yn y pennawd, ar ôl “Weinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”,
 - (b) yn is-adran (1) –
 - (i) ar ôl “Weinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”,
 - (ii) ym mharagraff (a), hepgorer “mabwysiadu’r cynigion” a mewnosoder “mabwysiadu eu cynigion eu hunain”,
 - (iii) ym mharagraff (b), hepgorer “tynnu’r cynigion” a mewnosoder “tynnu eu cynigion eu hunain”.
 - (c) yn is-adran (2), ar ôl “Weinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”.
 - (d) yn is-adran (5), ar ôl “Weinidogion Cymru” yn lle “ailystyried eu penderfyniad” rhodder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ailystyried eu penderfyniad neu ei benderfyniad”.
 - (e) yn is-adran (6) –
 - (i) ar ôl “Gweinidogion Cymru” yn lle “dynnu eu cynigion yn ôl ar unrhyw bryd cyn iddynt” rhodder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil dynnu eu cynigion neu ei gynigion yn ôl ar unrhyw bryd cyn iddynt neu iddo”,
 - (ii) ar ôl “cynigion” mewnosoder “eu hunain”.
- (k) Yn adran 74 (y ffurf weithredu) –
 - (a) yn is-adran (1), ar ôl “Weinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”,
 - (b) yn is-adran (3) –
 - (i) ar ôl “Gweinidogion Cymru” mewnosoder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”,
 - (ii) ym mharagraff (a) ar ôl addasu hepgorer “cynigion” a mewnosoder “eu cynigion eu hunain”.
 - (c) yn is-adran (4), ar ôl “Gweinidogion Cymru” yn lle “benderfynu nad yw is-adran (2) yn gymwys i’r cynigion os ydynt wedi eu bodloni” rhodder “neu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil benderfynu nad yw is-adran (2) yn gymwys i’r cynigion os ydynt wedi eu bodloni neu os ydyw wedi ei fodloni”.
- (l) Ar ôl adran 76 (darpariaeth bellach o ran gweithredu) mewnosoder –

“76A Gwrthdaro cynigion

Os caiff cynigion eu gwneud o dan adran 71 gan Weinidogion Cymru a chan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil sy'n cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ddarpariaethau sy'n gwrthdaro, y cynigion a wneir gan Weinidogion Cymru fydd yn drech a bernir bod y cynnig gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi ei dynnu yn ôl o dan adran 73(6)".

Laura Anne Jones 196

Schedule 4, page 113, leave out lines 11 to 12.

Atodlen 4, tudalen 113, hepgorer llinellau 11 hyd at 12.

Laura Anne Jones 197

Schedule 4, page 113, leave out lines 13 to 19.

Atodlen 4, tudalen 113, hepgorer llinellau 13 hyd at 20.

Laura Anne Jones 198

Schedule 4, page 113, leave out lines 20 to 24.

Atodlen 4, tudalen 113, hepgorer llinellau 21 hyd at 25.

Sioned Williams 199

Schedule 1, page 82, line 38, leave out –

'(1) An associate member is not eligible to vote in any proceedings of the Commission.'

Atodlen 1, tudalen 82, llinell 38, hepgorer –

'(1) Nid yw aelod cyswllt yn gymwys i bleidleisio yn unrhyw drafodion gan y Comisiwn.'

Sioned Williams 200

Schedule 1, page 83, after line 18, insert –

'() The terms and conditions must set out a process to be followed where a conflict of interest arises during the course of Commission proceedings in relation to a matter on which an associate member may vote.'

Atodlen 1, tudalen 83, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

'() Bydd y telerau a'r amodau yn nodi proses i'w dilyn pan fo achos o wrthdaro buddiannau yn codi yn ystod trafodion y Comisiwn mewn perthynas â mater y caiff aelod cyswllt bleidleisio arno.'